

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd nos Lun, 4 Mawrth, 2019 am 7.30yh
yn Ystafell Berkley, Penyparc.

Presennol:

Cyng. Dilwyn Jenkins (<i>Cadeirydd</i>)	Cyng. Auriol Williams (<i>Is-Gadeirydd</i>)
Cyng. Lyn Jones	Cyng. Ann Stokoe
Cyng. Llinos Price	Cyng. Des Davies
Cyng. Matthew Morgan	Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Lloyd Jenkins	Cyng. Peter Williams
Cyng. Clive Davies (<i>Aelod lleol o'r Cyngor Sir</i>)	Mrs Hildreth Owen (<i>Clerc</i>)

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod mis Mawrth. Croesawodd Mrs Melanie Davies, Penyparc, fydd yn dechrau ei swydd fel clerc Cyngor y Ferwig o 1af Ebrill 2019; mynychodd Mrs Davies y cyfarfod fel sylwebydd. Diolchwyd i'r Cynghorwyr Llinos Price ac Auriol Williams am drefnu lluniaeth ysgafn i ffarwelio â'r Clerc, Mrs Hildreth Owen, yn ei chyfarfod olaf.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams bod cofnodion Chwefror yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Dim

5. **Materion yn codi:**

(a) **Clerc newydd Cyngor Cymuned y Ferwig:** Cadarnhau apwyntiad Mrs Melanie Davies, Tŷ Celyn, Penyparc, yn Glerc Cyngor Cymuned y Ferwig o 1af Ebrill 2019.

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins bod y Cyngor yn cadarnhau apwyntiad Mrs Melanie Davies fel Clerc Cyngor Cymuned y Ferwig; disgwylir i Mrs Davies ddechrau ar ei dyletswyddau ar 1af Ebrill 2019.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Cyngor ar Bopeth	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£150.00
Gofal Mewn Galar	£50.00
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru	£150.00
Capel y Bedyddwyr Penyparc	£1,000.00
Pwll Nofio Aberteifi	£1,000.00
Clwb Pêl-droed Penyparc	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Gŵyl Fawr Aberteifi	I'w drafod ym mis Ebrill 2019
Papur Bro "Y Gambo"	I'w drafod ym mis Ebrill 2019

7. **Cynllunio:** Dim

8. **Materion Ariannol**

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Chwefror 2019)	101753	£308.77
Costau'r Clerc (Chwefror 2019)	101754	£48.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Chwefror 2019)	101755	£77.20
Swyddfa Archwilio Cymru (Cyfrifon 2017-18)	101756	£225.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Matthew Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill: Penderfynu ar raddfa cyflog a chostau'r Clerc newydd.

Derbyniadau: £1,065 – Grant oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion i osod cysgodfan bysiau yn mhentref Penyparc.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

9. Gohebiaeth:

73	Cyngor Sir Ceredigion	Manylion taliad grant tuag at gysgodfan bws newydd ym mhentref Penyparc.	Nodwyd
74	Eisteddfod Llangollen 2019	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.
75	Ambiwllans Awyr Cymru	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.
76	Elin Jones, AC	Llythyr a phosteri i'w harddangos yn yr hysbysfyrddau.	Mae'r posterï wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrddau.
77	Gofal Mewn Galar.	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.

10. Materion Eraill:

- (a) **Golygfan Gwbert:** Mae angen llenwi'r ceubyllau sydd yn yr Olygfan; dywedodd y Cyng. Matthew Morgan y byddai'n barod i wneud y gwaith cyn gynted â phosib. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd.
- (b) **Cinio Blynyddol y Cyngor:** Dywedodd y Cadeirydd y cynhelir cinio'r Cadeirydd ar 28 Ebrill yn y Clwb Golff.
- (c) **Hen Ysbyty Aberteifi:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Ann Stokoe yn dilyn cyfarfod diweddaraf Cyfeillion Ysbyty Aberteifi a'r Gymuned. Cyflwynodd dri opsiwn sydd ar y gweill i'r hen adeilad: Bod Cyngor Sir Ceredigion yn ei brynu; cymunedau lleol di-log yn cymryd cyfrifoldeb; gwerthu ar y farchnad agored.
- (d) **Sbwriel yn yr Olygfan:** Yn dilyn sylwadau yn y wasg bod awdurdodau yn dirwyo troseddwr am adael sbwriel, cytunwyd bod ymholiadau am y system yn cael eu dilyn. Mae'r Cyng. Llinos Price wedi trafod gyda staff Ysgol Gymunedol Penyparc bod plant yr ysgol yn cynllunio posterï yn gofyn i ymwelwyr barchu'r safle ac i fynd adref â'u sbwriel.

11. Adroddiad y Cyngorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

- (a) **Mannau parcio yn Patch:** Disgwylir rhagor o wybodaeth am y datblygiad arfaethedig.
- (b) **Cynlluniau Lle:** Disgwylir i'r Cyng. Davies drefnu cyfarfod gyda Mr Martin Price, cydlynnydd y fenter, yn ystod y mis i drafod digwyddiadau'r haf gyda'r cymunedau yn ardaloedd y Ferwig a Phenyparc.
- (c) **Llwybr Arfordir:** Cafwyd gwybodaeth gan Mr Osian Jones, swyddog llwybrau'r Cyngor Sir, bod yr ail bont i'r de o Lwynysgaw wedi ei chwblhau. Mae'r drydedd bont i'r de oddi yno mewn cyflwr gwael hefyd; caiff hon i'w harchwilio cyn bo hir.
- (d) **Newid hinsawdd:** Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau'n ymrwymedig i safiad diniwclear. Gyda rhannau o Gymru yn cael eu hystyried fel safleoedd posibl i gladdu gwastraff ymbelydrol, mae'r cyngor sir wedi ailadrodd ei ymrwymiad diniwclear hirsefydlog. Penderfynwyd yn ystod Gorffennaf 2006 y byddai'r cyngor yn Awdurdod Lleol Diniwclear – a gwnaed ymrwymiad arall i gefnogi dewisiadau cynaladwy eraill yn lle ynni niwclear.
- (e) **Cynllun Datblygu Lleol newydd:** Mae'r Cyng. Davies wedi trafod syniadau ynglŷn â phrosiectau cynllunio ymgeiswyr yn ardaloedd y Ferwig a Gwbert.
- (f) **Gwerthfawrogiad:** Diolchodd y Cyng. Davies i Mrs Hildreth Owen am ei chydweithrediad a'i gwaith effeithiol fel Clerc i Gyngor y Ferwig.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 1 Ebrill (F)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2019:

13 Mai (YB) 3 Mehefin (F) 1 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F)
7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on Monday, 4 March, 2019 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc.

Present

Cllr Dilwyn Jenkins (<i>Chairperson</i>)	Cllr Auriol Williams
Cllr Lyn Jones	Cllr Ann Stokoe
Cllr Llinos Price	Cllr Des Davies
Cllr Matthew Morgan	Cllr Eurig Lloyd
Cllr Lloyd Jenkins	Cllr Peter Williams
Cllr Clive Davies (<i>Local member of the County Council</i>)	Mrs Hildreth Owen (<i>Clerk</i>)

1. Chairperson's welcome and Personal Matters.

The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed all members to the March meeting. He welcomed Mrs Melanie Davies, Penyparc, who will commence her duties as Clerk from 1st April and attended the meeting as an observer. He thanked Councillors Llinos Price and Auriol Williams for providing refreshments on the occasion of the final meeting of the retiring Clerk, Mrs Hildreth Owen.

2. Apologies for absence: Dim

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Peter Williams that the minutes of the February meeting be recorded as correct.

4. Declaration of personal interests: None

5. Matters arising:

- (a) **New Clerk for Ferwig Community Council:** It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that Mrs Melanie Davies be appointed Clerk to Ferwig Community Council. Mrs Davies will commence her duties on 1st April 2019.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Citizens' Advice Bureau	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£150.00
Cruse Bereavement Care	£50.00
Bobath Wales Children's Therapy Centre	£150.00
Penyparc Chapel	£1,000.00
Cardigan Swimming Pool	£1,000.00
Penyparc Football Club	To be discussed in April 2019
Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed in April 2019
Ceredigion Young Farmers' Clubs	To be discussed in April 2019
Ceredigion 2020 International Sheep Dog Trials.	To be discussed in April 2019
Gŵyl Fawr Aberteifi	To be discussed in April 2019
Papur Bro "Y Gambo" (Welsh newspaper)	To be discussed in April 2019

7. Planning: None

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's salary (February 2019)	101753	£308.77
Clerk's Expenses (February 2019)	101754	£48.60
H M Revenue & Customs: Clerk's Income Tax (February 2019)	101755	£77.20
Wales Audit Office (2017-18 Accounts)	101756	£225.00

It was proposed by Cllr Matthew Morgan and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the above bills be paid.

Other financial matters:

Receipts: £1,065 – Details of grant from Ceredigion County Council to erect a new bus shelter at Penyparc.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

9. Correspondence:

73	Ceredigion County Council	Details of grant received towards a new bus shelter at Penyparc	Noted
74	Llangollen Eisteddfod 2019	Request for financial aid	To be discussed at the April meeting.
75	Wales Air Ambulance	Request for financial aid	To be discussed at the April meeting.
76	Elin Jones, AC	Letter and posters to be displayed in noticeboard	Posters have been displayed in the three noticeboards.
77	Cruse Bereavement Care.	Request for financial aid	To be discussed at the April meeting.

10. Other Matters:

- (a) **Viewpoint:** Potholes at the site are in need of repair. Cllr Matthew Morgan agreed to complete the work as soon as possible. He was thanked by the Chairman.
- (b) **The Chairman's Annual Dinner:** The dinner will be held on 28 April at the Golf Club.
- (c) **The Old Cardigan Hospital:** Cllr Ann Stokoe attended a recent meeting of the League of Friends of Cardigan Hospital and Community and gave the following update on the future of the building and the options for its disposal: to be purchased by Ceredigion County Council; to be taken over by a community non-profit making venture; to be sold on the open market.
- (d) **Rubbish disposed at the Gwbert Viewpoint:** Following a report in the local press, it was noted that some local authorities issue fines to deter offenders. It was agreed to obtain further information. Cllr Llinos Price stated that she had discussed with staff at Ysgol Gymunedol Penyparc a project for school children to design posters asking visitors to the site to respect the facility and to take home their rubbish and litter.

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Parking at Patch:** Further information is expected on the proposed development.
- (b) **Place Plans:** Cllr Davies is to meet Mr Martin Price, the project co-ordinator, to discuss summer events with the communities of Ferwig and Penyparc.
- (c) **Coastal Path:** Information was received from Mr Osian Jones, the footpath officer with the County Council, that the second wooden bridge to the south of Llwynysgaw has been repaired. The third bridge to the south is in a poor state of repair and will be inspected soon.
- (d) **Climate change:** Ceredigion County Council is continuing its commitment as a nuclear-free county. With various regions of Wales being considered as dumping grounds for radioactive waste, the county council has reiterated its longstanding nuclear-free commitment made in July 2006 – additional commitments were made to encourage sustainable energy systems rather than nuclear energy.
- (e) **New Local Development Plan:** Cllr Davies has discussed with officers the proposed development plans in the communities of Ferwig and Gwbert.
- (f) **Acknowledgment:** Cllr Davies wishes to record his thanks to the retiring Clerk, Mrs Hildreth Owen, for her cooperation and efficient work during her tenure as Clerk to Ferwig Community Council.

12. Date of next meeting: 1 April 2019 at Hen Ysgol y Ferwig at 7.30pm.

2019 Council Meetings:

13 May (YB) (AGM) 3 June (F) 1 July (YB) 2 September (F)
7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting